
# Gofalu am eich anifeiliaid anwes a'ch da byw yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan



**POWER CUT?**
**CALL 105**

SP ENERGY NETWORKS

# Gofalu am eich anifeiliaid anwes yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan

Ni fydd toriad yn y cyflenwad yn effeithio ar y rhan fwyaf o anifeiliaid anwes. Am gyngor penodol ar anifeiliaid egsotig neu anarferol, cysylltwch â'ch siop anifeiliaid anwes leol, eich cyflenwr neu'r RSPCA.

## Pysgod trofannol

Os bydd y cyflenwad wedi'i dorri am gyfnod byr yn unig, ni fydd hynny'n effeithio ar y rhan fwyaf o bysgod trofannol. Gall cyfnodau hwy fod yn broblem gan na fydd pympiau aer, hidlyddion na gwresogyddion trydan yn gweithio heb gyflenwad.

Mae cyflenwyr pysgod yn argymell cael hidlydd swigod rhad sy'n gweithio ar bwmp trydan batri i'w ddefnyddio os bydd cyflenwad trydan yn cael ei effeithio. Mae gwresogyddion sy'n gweithio â batri ar gael mewn siopau anifeiliaid anwes.



**Os nad oes cyfarpar batri ar gael ei chi:**

- Aflonyddwch wyneb y dŵr am 5 munud bob awr drwy lenwi jwg â dŵr o'r tanc a'i arllwys yn ôl i mewn.
- I insiwleiddio, lapiwch y tanc mewn blancedi a/neu llenwch boteli dŵr poeth â dŵr cynnes a'u rhoi o amgylch y tu allan i'r tanc.

# Da byw

Os bydd toriad yn eich cyflenwad trydan, gall amharu ar y systemau awyru, gwresogi, golau a chyflenwi bwyd.



**Efallai yr hoffech ystyried:**

- Generadur i ddarparu cyflenwad pŵer arall
- Cynllun wrth gefn a digon o borthiant i fwydo â llaw os ydych yn arfer dibynnu ar fwydo awtomatig
- Uned sy'n cael ei gyrru â batri i gael pŵer ar gyfer unrhyw ffensys trydan hanfodol

**Os nad oes generadur ar gael i chi:**

- Defnyddiwch fflapiau gollwng awtomatig yn yr adeilad ar gyfer awyru naturiol. Gallwch gynyddu cylchrediad yr aer drwy agor fflapiau awyru a drysau i'r pen.
- Mewn tywydd oer, defnyddiwch fwy o ddeunydd insiwleiddio a gwellt fel gwasarn, yn enwedig ar gyfer anifeiliaid ifanc. Gallech ystyried symud unrhyw anifeiliaid rydych yn teimlo sydd yn y perygl mwyaf i rywle dros dro gyda gwres nwy potel.

**POWER CUT?**
**CALL 105**

## Cysylltwch

I gael manylion am doriad yn y cyflenwad trydan neu'r hyn y gallwch ei wneud, neu os gwelwch ddifrod i linellau pŵer, ceblau neu is-orsafoedd - **ffoniwch 105**

**POWER CUT? CALL 105**

Neu, gallwch gysylltu â ni ar y rhifau canlynol:

**Canolbarth a De'r Alban:**
0800 092 9290

**Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig:**
0800 001 5400

## Cewch y diweddaraf ar ein cyfryngau cymdeithasol

@SPEnergyNetwork

@SPEnergyNetworks

@SPEnergyNetworks

## Gweler ein gwefan am ragor o wybodaeth

**www.spenergynetworks.co.uk**

SP ENERGY NETWORKS

SCP8752 FEB 22